

Adroddiad Blynyddol Y Corff Llywodraethol 2020-21



Cyflwynir yr adroddiad hwn ar sut y cyflawnwyd swyddogaethau'r Llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn addysgol 2020-21.

AELODAU'R CORFF LLYWODRAETHU

Aelod	Cynrychioli	Tymor gwasanaeth
Ms Alaw Ceris (Cadeirydd)	Rhieni	2017-2021
Mrs Miriam Grant (Is-Gadeirydd)	Rhieni	2019-2023
Ms Emily Young	Rhieni	2018-2022
Mr James Evans	Cyfetholedig	2015-2019
Mr Ian Goronwy Williams	AALI	2016-2020
Dr Greta Hughes	Cyngor Cymuned	2017-2021
Mr James Evans	Cyfetholedig	2019-2023
Mr Andrew Parry	Cyfetholedig	2019-2023
Cyng. Angela Russell	AALI	2017-2021
Mrs Sian Angharad Elfryn	Athrawon	2018-2022
Mrs Manon Haf Owen	Pennaeth	

Cadeirydd: Ms Alaw Ceris, Y Boncan, Llanbedrog alawc@ysgolllanbedrog.cymru

Clerc: Mr Iwan Hughes, Derlwyn, Llanbedrog iwanh@ysgolllanbedrog.cymru

Swyddogaethau'r Llywodraethwyr

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r hyn sydd yn digwydd ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r cyfrifoldebau wedi cynyddu'n sylweddol iawn dros y blynyddoedd diwethaf.

Rhaid i'r corff gyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ond yn aml rydym yn cyfarfod ddwywaith y tymor.

Adroddodd y pennaeth yn dymhorol ar gyrhaeddiadau disgyblion a phresenoldeb, materion Cwriclaidd a chanlyniadau, anghenion arbennig, lles, rheolaeth, staffio a chyllid yn ogystal ag adrodd ar lwyddiant yr ysgol, amrywiol weithgareddau a digwyddiadau. Mae cofnodion llawn o'r cyfarfodydd ar gael yn yr ysgol.

Mae'r corff wedi ei rannu yn is-baneli sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Yn Ysgol Llanbedrog mae gennym Is-baneli Disgyblu a Diswyddo Staff, Apel Disgyblu a Diswyddo Staff, Disgyblu a Gwahardd Disgyblion, Cwynion, Adolygu Tâl.

Mrs Miriam Grant oedd Llywodraethwr dynodedig Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Ms Emily Young oedd y Llywodraethwr dynodedig Amddiffyn Plant.

Gallwch gael gwybodaeth bellach am y gyllideb neu weld cofnodion yr holl gyfarfodydd drwy ofyn i'r Clerc.

Cynhelir etholiadau i ethol rhiant-lywodraethwr newydd pan ddaw'r cyfnodau uchod i ben. Bydd yr etholiadau nesaf yn rhymor yr Hydref 2021.

Dyddiadau Cyfarfodydd

Bu i'r Corff Llawn gyfarfod ar 22/10/19, 12/12/19, 11/2/20, 15/6/20, 23/7/20.

Yn ogystal â hyn cynhaliwyd cyfarfodydd o'r gwahanol banelau.

Adroddiad ar weithredu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Hydref 2020

Ni chynhaliwyd cyfarfod gan na ofynwyd am gyfarfod gyda'r llywodraethwyr gan y rhieni.

TREFNIANT Y DOSBARTHIADAU MEDI 2020

Athrawon	M	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Mrs Sian Elfryn	10	12							22
Mrs Catrin Hall/ Miss Sera Jones			12	15					27
Mrs Gwyneth Jones					14	11			25
Mrs Manon Owen							10	18	28
ADYaCh		1	1		2	2	1	2	9 (8.8%)
PYD		2		3	1	1			7 (7.6%)
Disgyblion	10	12	12	15	14	11	10	18	102 (92+10)

PRESENOLDEB YSGOL GYFAN

Presenoldeb	=	Covid-19- dim data
Absenoldebau gydag awdurdod	=	Covid-19- dim data
Absenoldebau heb awdurdod	=	Covid-19- dim data

Targed presenoldeb y llywodraethwyr a Gwynedd oedd 95.5%. Pwysleisiwn yr angen am nodyn neu neges i egluro pob absenoldeb.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi pwysau mawr ar bob ysgol i godi presenoldeb ac i ddileu unrhyw absenoldeb di-awdurdod. Caiff cofrestr yr ysgol ei fwydo i system ganolog gan y Cyngor a rhaid i'r ysgol drafod unrhyw bryderon gyda'r Swyddog Lles. Gweithredodd yr ysgol yn unol â'r gofynion.

DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2020-21

Tymor yr Hydref 2020

Agor: Medi 1

Hanner Tymor: 26-30 Hydref

Cau: Rhagfyr 18

Gwyliau'r Nadolig: 21 Rhagfyr - 1 Ionawr

Tymor y Gwanwyn 2021

Agor: Ionawr 4

Hanner Tymor: 15-19 Chwefror

Cau: 26 Mawrth

Gwyliau'r Pasg: 29 Mawrth - 9 Ebrill

Tymor yr Haf 2021

Agor: Ebrill 12

Calan Mai (Gŵyl banc) - Mai 3

Hanner Tymor: 31 Mai 25- 4 Mehefin

Cau: Gorffennaf 20

Gwyliau'r Haf: 21 Gorffennaf - 31 Awst 2021

Dyddiadau hyfforddiant mewn swydd 2020-21 oedd 1+2/9/20, 23/10/21, 2/11/20, 4/1/21

Fel rhan o Gyfnod Clo Covid-19, bu'r ysgol ar gau o 18/12/20, gyda'r disgyblion a'r staff yn gweithio o adref am dymor y Gwanwyn ar ei hyd, a dychwelyd yn ol i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg.

SESIYNNAU'R YSGOL

Bore: 9:00a.m -12:00 p.m

Prynhawn 12:45pm CA2/1:00 p.m CS - 3:15p.m

Meithrin: 9:00 - 11:00 a.m

(Clwb Gwarchod: 8.10am, Clwb Brecwast: 8:35am, ysgol yn agor: 8.50am)

Oherwydd hyblygrwydd dros dro i helpu ymbellhau cymdeithasol, cawsom ganiatad dros dro i'r CS orffen am 3:00.

BLAENORIAETHAU'R CDY 2020-21

Nodir blaenoriaethau'r ysgol yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol (CDY), dogfen hynod bwysig y mae'r ysgol yn gweithio arni i geisio sicrhau ein bod yn gweithredu mor effeithiol â phosibl. Mae'r Llywodraethwyr yn trafod elfennau yn eu cyfarfodydd ac yn monitro datblygiadau. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol hefyd yn derbyn copi o'r ddogfen hon. Dyma flaenoriaethau'r ysgol yn 2020-21 a bras disgrifiad o'r cyflawniadau.

Blaenoriaeth 1 Sicrhau fod pob disgybl ar draws yr ysgol yn mwynhau, chwilfrydig a mentrus er mwyn gallu cyrraedd eu llawn botensial	<ul style="list-style-type: none">• Dengys trafodaethau staff a holi disgyblion bod ethos cynhaliol o ddisgwyliadau uchel ym mhob dosbarth gyda disgyblion yn cael cyfle i ddathlu methiannau fel cyfleoedd i ddysgu ac i ddyfalbarhau.• Mae holi disgyblion yn dangos bod ymddygiad ac ymagwedd gadarnhaol gan yr holl ddisgyblion yn sicrhau'r allu i addysgu a dysu mewn dulliau mwy rhydd. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio Pwerau Dysgu yn rheolaidd yn eu gwaith dyddiol (ond mae rhain angen eu hatgoffa yn dilyn cyfnodau clo).• Mae arsylwi disgyblion yn dangos datblygiad boddhaol, gyda rhai yn dda, o ran eu sgiliau i weithio yn annibynnol. Mae'r cyfnodau clo yn dangos eu ôl.• Ni fu'n bosibl craffu gwaith fel yr oeddem wedi ei gynllunio, ond mae dadansoddi data a sgysiau mewn cyfarfodydd staff yn dangos bod ehangu ar allu disgyblion i wella gwaith eu hunain yn arwain at gynnydd mewn safonau. Mae'r staff yn cytuno fod gwerth mewn parhau i weithio ar hyn gan ei fod yn dylanwadu'n effeithiol ar draws yr ysgol.• Oherwydd yr amgylchiadau hefo Covid-19, amharwyd ar y data cynnydd a tracio disgywliedig ond mae yn dangos bod pob disgybl yn cael cyfle i gyrraedd ei llawn botensial o dan yr amgylchiadau a bod yr athrawon yn gweithio yn galed i ymateb ac addasu.
Blaenoriaeth 2 Teithio tuag at gynllunio ar gyfer Cwricwlwm i Gymru gan ymgorffori'r 4 Diben yn effeithiol i ddatblygu disgyblion cyflawn, eang eu safbwyntiau	<ul style="list-style-type: none">• Dengys holi staff ac sesiynau mewn cyfarfodydd staff bod hyder a dealltwriaeth yr holl staff o'r 4 Diben wedi datblygu yn dda, gydag effaith gadarnhaol hyn yn dechrau treiddio'n llwyddiannus i brofiadau'r disgyblion ar lawr y dosbarth• Mae pob aelod o staff wedi datblygu hyder wrth arbrofi ac ymchwilio i agwedd sydd angen ei ddatblygu ymhellach• Defnyddir technegau'r Hetiau Meddwl o B1-6 a chant eu hymgorffori'n effeithiol i waith y disgyblion gan ddatblygu eu ffyrdd o feddwl a dod i benderfyniadau.• Mae nifer o ddisgyblion CA2 yn dangos eu bod yn dechrau gallu trafod eu gwaith eu hunain yn ogystal ag agweddau sy'n datblygu'r 4 Diben o wahanol berspectif, yn gynyddol hyderus a llwyddiannus drwy ddefnyddio'r Hetiau Meddwl.• Buasai parhau i roi sylw i hyn yn werthfawr, gan fod ansefydlogrwydd yr addysg dros y flwyddyn wedi amharu ar gysondeb a dilyniant,• Oherwydd y sefyllfa gyfredol hefo'r pandemig ni fu'n bosibl arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau mewn cyfarfodydd staff gan ein bod yn ein swigod dosbarth.
Blaenoriaeth 3 Datblygu ymwybyddoeth gadarn i'r 12 Egwyddor Addysgegol er mwyn arwain at newid (cydweithio dalgylchol)	<ul style="list-style-type: none">• Mae hyder a dealltwriaeth yr holl staff o'r 12EA wedi datblygu ac yn llawer eglurach, gydag effaith hyn yn treiddio'n amlwg i brofiadau'r disgyblion ar lawr pob dosbarth• Dengys trafodaethau mewn cyfarfodydd staff fod y 12EA yn cael eu cyfuno ar draws yr ysgol, i safon dda neu well.• Manteisia bron pob disgybl yn yr ysgol ar weithgareddau bywiog, ysgogol a difyr sydd yn cyhorthwyo i ddatblygu a'u parato'n effeithiol ar gyfer y CiG• Mae cyflwyno egwyddorion y 12EA yn cael effaith gadarnhaol ar safonau bron bob un o'r disgyblion. Yn anffodus mae effaith y pandemig a'r cyfnodau dysgu rhithiol wedi gadael effaith negyddol sydd angen gweithio ac adeiladu arno yn 2021-22.• Mae dealltwriaeth llywodraethwyr yn y 12EA yn dyfnhau yn dda• Oherwydd y sefyllfa, methwyd arsylwi gwersi, mynd ar deithiau dysgu a chraffu ar lyfrau fel yr oeddem wedi ei fwriadu er mwyn cael tystioaleth gadarn fod y 12EA yn cael eu cyflawni i safon dda neu well.
Blaenoriaeth 4	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r ysgol yn barod i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion y Ddeddfwriaeth ADY newydd pan ddaw i rym yn Medi 2021.

<p>Ymateb ymhellach fel ysgol gyfan i ofynion y Côt Ymarfer ADY (cydweithio dalgylchol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannodd rhwydweithiau cydweithio dalgylchol effeithiol at ehangu ein Map Darpariaeth Ysgol sydd o ganlyniad yn ein harfogi'n gadarnach i gefnogi pob disgybl i ddatblygu i'w llawn potensial • Gwelir fod y rhan fwyaf o ddisgyblion ADYCh yn gwneud cynnydd da neu well o ystyried eu hoedran a'u gallu. • Polisi ADYCh yr ysgol wedi datblygu a gwreiddio'n dda neu dda iawn, mae'n dogfen effeithiol sy'n gyson yrru gwelliannau'n llwyddiannus. • Gweithrdiadau'r ysgol fel Sefydliad Sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gan sicrhau darpariaeth a chyfleoedd gorau i bob disgybl. Mae hyn yn greiddiol i waith yr ysgol. O ganlyniad, mae holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn addysg berthnasol, addas ac effeithiol gan staff sydd wedi eu hyfforddi i ateb eu anghenion penodol o fewn yr ysgol. • Cydweithir yn effeithiol rhwng ystod eang o staff arbenigol yr AAL a staff yr ysgol, gan roi'r cyfleoedd gorau i bob disgybl. • Mae cofnodion monitro yn nodi bod darpariaeth ADYCh ar draws yr ysgol yn gyson dda a chynnydd effeithiol i'w weld yn nghyrrhaeddiad disgyblion o fewn eu gallu eu hunain ac yn natblygiad proffesiynol y staff addysgu a chefnogol. • Oherwydd yr amgylchiadau, amharwyd ar amserlenni diwgylieidig, ond addaswyd yn dda iawn, gyda'r holl disgyblion yn derbyn sylw haeddiannol effeithiol weithio ar eu targedau yn ystod cyfnodau dysgu o bell, ac yna o fewn eu swigod dosbarth. • Gwelir fod y cymorthyddion wedi blodeuo yn ystod y cyfnod gan ehangu eu sgiliau a'u datblygiad proffesiynol yn effeithiol.
<p>Blaenoriaeth A</p> <p>Datblygu defnydd effeithiol o Addysg Cyfunol drwy'r ysgol i alluogi pob disgybl ddal i fyny a chyflawni hyd eithaf ei allu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae defnyddio egwyddorion Meddylfryd o Dwf a thrafodaethau a gemau Amser Cylch yn arwain at godi eu hyder a chymhelliant disgyblion ar draws yr ysgol i ymddrin â'u gwaith. Gyda lles disgyblion wedi datblygu'n dda drwy'r strategaethau. • Datblygodd dealltwriaeth athrawon a chymorthyddion o ddysgu cyfunol yn dda iawn a chynyddodd eu hyder wrth ddefnyddio offer digidol i gefnogi disgyblion wrth eu gwaith yn arw. O ganlyniad, cyflwynwyd darpariaeth ehangach, gyfoethocach yn ystod yr ail gyfnod clo, gyda'r disgyblion bron i gyd yn elwa o hyn yn fawr. • Cyflwynwyd darpariaeth effeithiol, yn cynnwys arbrofi gyda gweithgareddau trawsgwricwlaidd cyfoethog yn plethu agweddau o'r 4 Diben ar waith a'r 12 EA yn ystod dysgu cyfunol. • Cyflwynwyd addysgu mor effeithiol â phosibl, sesiynau wyneb yn wyneb dyddiol yn cynnwys asesu ffurfiannol, addysgu gwahaniaethol gyda rhannu adnoddau e.e. llechi gwynion i'r disgyblion allu eu dangos ar y sgrin i ateb. Gwelwyd fod hyn wedi symud y dysgu cyfunol yn ei flaen yn effeithiol iawn, gan gadw disgyblion yn weithredol. • Cynhaliwyd safonau cyffredinol ar draws y cwricwlwm drwy ddysgu cyfunol, ond roedd yn sialens. • Parhaodd disgyblion CA2 i ddatblygu'n effeithiol eu gallu i weithio'n annibynnol, asesu eu gwaith eu hunain a rhannu adborth gyda'u cyfoedion, gymaint ag oedd hyn yn bosibl. • Gwelir sgiliau digidol disgyblion a staff wedi gwella a datblygu'n arw, yn ogystal â ffurfiau cysylltu â rhieni (Meet a Forms). • Cafwyd ymgysylltiad da neu dda iawn gan y rhan fwyaf a'u cefnogaethi ddysgu yn y cartref yn glodwiw iawn.
<p>Blaenoriaeth B</p> <p>Datblygu agweddau o les trwy'r ysgol wrth i ddisgyblion a staff ddychwelyd yn dilyn Cyfnod Clo</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer datblygu lles tymor byr ar waith gyda'r ysgol yn ddiogel, yn amgylchedd groesawgar a'r disgyblion yn ffynnu. Gwelir fod bron pob disgybl yn ymfalchio o gael bod yn ol hefo'u cyd-ddisgyblion yn yr ysgol a rhieni yn yn werthfawrogol i'r ysgol a'r staff. • Gwelir fod rhoi sylw i les disgyblion a staff yn arwain at godi eu hyder a'u cymhelliant i fynd ymlaen a'u gwaith a bod yn bwysig parhau gyda hyn. • Gwelir fod cyfathrebu llwyddiannus ac adeiladol ymysg yr holl staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau o fewn lles yn glir ac yn weithredol ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar yr holl randdeiliaid. BYddwn yn parhau gyda hyn. • Mae hyfforddi a datblygu cymuned yr ysgol o ran blaenoriaethu lles wedi ei ddatblygu yn llwyddiannus. Mae ein hymrwymiad i Amser Cylch yn brawf llwyddiannus o hyn, • Mae adnabyddiaeth naturiol a pherthynas agored y rhanddeiliaid yn cyfrannu'n effeithiol at ein gallu i gefnogi lles grwpiau o ddysgwyr. Gweithredir ymyraethau cyffredinol wedi'u targedu ar draws yr ysgol yn llwyddiannus i ymateb i anghenion. • Ni phenwodyd Hyrwyddwyr Lles yn yr ysgol, fel rhan o'r Grwp Iach oherwydd amgylchiadau a chyfyngiadau.
<p>Blaenoriaeth C</p> <p>Codi safonau'r Gymraeg drwy'r ysgol er mwyn galluogi pob disgybl ddal i fyny ac i gyflawni hyd eithaf ei allu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amlyga asesiadau athrawon fod bron bob disgybl yn gwneud cynnydd mewn hyder a pharodrwydd i ddefnyddio'r Gymraeg, pan yn yr ysgol, ond bod y cyfnodau clo yn mynd a ni'n ôl bob tro. a'i fod wedi cael effaith mawr ar ddilyniant a datblygiad. • Mae gan y staff ddarlun clir iawn o anghenion pob dysgwr a chynlluniau yn amlygu gweithgareddau pwrpasol i gwrdd â'r gofynion. Bydd angen gweithio yn galed ar hyn ymhellach yn 2021-22. • Rhoddir ymyraethau priodol ar waith yn hyderus ac yn gyson gan y staff ond mae angen amser iddynt wreiddio a datblygu.

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae effeithiol o egwyddorion trochi yn y CS, a thystiolaeth o hynny i'w weld drwy weithgareddau ffurfiol ac anffurfiol yn y dosbarthiadau, ond mae'r anghysondeb yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi cael effaith ar hyn, ac mae angen amser i weithredu. • Mae dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau cytunedig ar gyfer y Gymraeg (cwricwlwm, Siarter Iaith a sgiliau iaith y gweithlu) gan arweinwyr a staff, Llywodraethwyr a rhieni • Bydd cyfran o gyllid Rhaglen Dysgu Carlam i staffio yn effeithiol er mwyn hybu sgiliau Cymraeg drwy'r ysgol yn 2021-22. • Bydd datblygiad proffesiynol y staff yn cael sylw trylwyr ac yn eu harfogi yn effeithiol i gefnogi'r dysgwyr mewn cyfarfodydd staff yn 2021-22. • Mae cydweithio effeithiol ar draws y dalgylch yn dylanwadu yn gadarnhaol ar ddatblygiad iaith ac ymagweddau tuag at y Gymraeg yn Ysgol Llanbedrog. Trwy gydweithio ehangwn ein darpariaeth. • Mae partneriaeth werthfawr rhwng holl ran-ddeiliaid yr ysgol e.e. teuluoedd, Awdurdod, Llywodraethwyr, GwE ayyb sy'n rhannu'r un weledigaeth ganolog i'r Gymraeg, yn asgwrn cefn i waith yr ysgol.
--	---

HYFFORDDIANT STAFF

Mynychodd y staff nifer o hyfforddiant yn ystod y flwyddyn yn unol â'r CDY, blaenoriaethau'r Awdurdod a'r Llywodraeth. Ceir gywbonaeth o'r holl hyfforddiant yn yr ysgol. Hyfforddiant rhithiol oedd y rhain.

DATGANIAD ARIANNOL

Cynhelir cyfarfod o'r Panel Cyllid yn dymhorol ac mae'r llywodraethwyr yn adolygu polisiau yn ymwneud â chyllid yn unol â'r gofynion. Gweler atodiad o gyllideb ddiweddaraf yr ysgol.

* Gwariant perthnasol o gyfrifon terfynol yr ysgol am 2020-21

Pennawd	£
Cynnal a Chadw (cyfrifoldebau hanesyddol)	1,156
Cynnal a Chadw (gwasanaeth eiddo)	1,697
Trydan	6,200
Nwy	636
Dŵr	1,107
Contract Glanhau	11,480
Cynnal Tiroedd (Gwalch)	493.30
Offer Ymladd Tân	56
Trethi	5,300
Lwfans y Pen (offer, llyfrau ac ati)	9,711
Dodrefn	0
Post	72
Ffôn	298
Pyllau Nofio a chwaraeon	208
Gwasanaeth Cerdd	2,696
Cynnal (cefnogaeth technoleg)	1,352

Arian wrth gefn

£53,014 (ar gyfer diogelu a chynnal staffio)

* Costau teithio a Chynhaliadaeth Llywodraethwyr- £0

* Cronfa'r ysgol: Hon yw'r gronfa ar gyfer gwariant bob dydd. I'r gronfa hon mae arain

teithiau addysgol, tynnu lluniau ac ati yn mynd. Mae cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ac a dalwyd ohoni yn sylweddol. Mae'r gronfa yn cael ei harchwilio yn flynyddol gan gyfrifydd allanol, yn unol â'r gofynion ac mae manylion ar gael yn yr ysgol pe dymunir eu gweld. £6,629.69 o arian mewn llaw 1af Ebrill 2021. (Atodiad 1)

* **Rhoddion i'r ysgol:** Oherwydd sefyllfa pandemig Covid 19, ni fu'n bosibl i'r Cyfeillion fod mor brysur yn trefnu digwyddiadau casglu arian ar gyfer yr ysgol. Er hyn llwyddwyd o gydi ychydig o arian. Hoffai'r Llywodraethwyr ddiolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at eu hymdrechion i gasglu arian. Mae'r ysgol a phob plentyn sydd ynddi wedi elwa'n fawr o'r cyfraniadau hyn. (Atodiad 2).

LLAWLYFR YSGOL

Mae'r Llawlyfr yn cael ei ddiweddarau yn flynyddol. Mae copiau o'r llawlyfr ar gael o'r ysgol ac ar y wefan. Does dim newidiadau mawr ers yr adroddiad diwethaf.

GWYBODAETH AM BERFFORMIAD A THARGEDAU

Oherwydd Cyfnod Clo Covid-19 ni roddwyd adesiad diwedd blwyddyn i ddisgyblion Blwyddyn 2 a 6 yn haf 2020. Mae'r tabl yn odi targedau'r ysgol am y tri haf nesaf.

% Cyfnod Sylfaen - Deilliant 5 neu 6

% Cyfnod Allweddol 2 - Lefel 4 neu 5

Cyfnod Sylfaen

Bl 2- Deilliant 5+ a 6+	2021 (10 plentyn, 1 plentyn- 6.25%)				2022	2023	2024
	Targed % D5+	Canlyniad % D5+	Targed % D6+	Canlyniad % D6+	Targedau D5+ i'r dyfodol %		
Dangosydd Cyfnod Sylfaen		Covid-19			%	%	%
Sgiliau Iaith a Llythrennedd Cymraeg		Covid-19		Covid-19	%	%	%
Datblygiad Mathemategol		Covid-19		Covid-19	%	%	%
Datblygiad Personol, Cymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol		Covid-19		Covid-19	%	%	%

Cyfnod Allweddol 2

Bl6- Lefel 4+ a 5+	2021 (18 disgybl, 1 plentyn - 5.6%)				2021	2022	2023
	Targed % L4+	Canlyniad % L4+	Targed % L5+	Canlyniad % L5+	Targedau L4+ i'r dyfodol %		
Dangosydd Pynciau Craidd		Covid-19			%	%	%
Cymraeg		Covid-19		Covid-19	%	%	%
Saesneg		Covid-19		Covid-19	%	%	%
Mathemateg		Covid-19		Covid-19	%	%	%
Gwyddoniaeth		Covid-19		Covid-19	%	%	%

TARGEDAU PERFFORMIAD

Mae'r Llywodraethwyr wedi trafod a chytuno ar y targedau a nodir yn y tabl uchod ar gyfer asesiadau statudol Blwyddyn 2 a Blwyddyn 6, ond oherwydd y sefyllfa hefo'r pamdemig, eithriwyd gwneud hyn yn ffurfiol hyn yn 2020-21, ac ni ddylid eu cyhoeddi. Gosodir targedau unigol i bob plentyn drwy'r ysgol i ddatblygu pawb fel unigolion yn ôl eu gallu personol. Anelwn at gyrraedd y lefelau disgwylidiedig sef Deilliant 5 ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (Blwyddyn 2) a Lefel 4 ar ddiwedd CA2 (Blwyddyn 6), neu darged gyrraeddadwy arall. Gosodir targedau heriol i bob disgybl, yn unol â'u gallu addysgol.

Er mwyn ymestyn pob unigolyn i fod yn hyderus a chyrraedd ei lawn botensial, caiff rhai disgyblion eu targedu mewn agweddau y maent angen hwb neu her bellach ynddo; e.e mewn Llythrennedd, Rhifedd a Lles. Gall hyn ddigwydd fel sylw, cymorth neu waith gwahaniaethol o fewn y dosbarth neu mewn grŵp bychan neu'n unigol gyda chymhorthydd tu allan i'r docbarth. Caiff disgyblion, sydd ar gofrestr ADYach yr ysgol, sylw neu dargedau gan arbenigwyr allanol sydd yn ymweld â'r ysgol a byddwn yn cyd-weithio arnynt yn yr ysgol. Gan bod nifer y plant ym mhob blwyddyn yn eithaf isel, mae un plentyn yn cyfrif fel % uchel o ddata blwyddyn gyfan.

CYFRANOGIAD PLANT

Mae plant yr ysgol yn cael cyfrannu eu syniadau i fywyd a threfn yr ysgol drwy amrywiol ffyrdd, trafodaethau, holiaduron, Cyngor Ysgol, Grŵp Gwyrdd, Grŵp Iach, Swyddogion Diegelwch am bydd eu cyfraniad yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr yn achlysurol.

Rhai o'u cyfraniadau yn 2020-21 oedd trefnu gweithgareddau i godi arian at achosion da, trefnu a chynnal gemau amser chwarae a chlybiau ôl-ysgol. Mae Gwefan a chyfrif Facebook yr ysgol yn gofnod gwych o hyn.

Cyfrannodd y disgyblion hefyd i gynllunio gwaith y dosbarth drwy gynnig syniadau am yr hyn yr hoffent eu dysgu a syniadau am sut y gellir gwneud hynny.

ADEILADAU

Mae pob rhan o'r ysgol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac effeithlon. Cynhelir ymarfer larwm tân pob hanner tymor. Pob hanner tymor mae'r Pennaeth, fel Rheolwr Safle yn llenwi ffurflen Gwiriad Safle, gyda'r holl staff a disgyblion yn cyfrannu atynt er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Yn ogystal, mae'r safle yn cael ei wirio yn barhaus o ddydd i ddydd. Penodwyd dau ddisgybl o Bl 6 yn Swyddogion Diogelwch am y flwyddyn.

Gwyliau Haf 2020

- symudwyd drws dosbarth BL MaD ymlaen at wal y Neuadd er mwyn cael mwy o ofod yn y dosbarth. adeiladwyd wal fewnol o gwmpas y Gornel Dawel er mwyn creu ystafell i grwpiau ac unigolion fynd i weithio gyfda

Tymor yr Hydref

- gosod polyn baner ar yr iard.
- Gwalch- torri eiddew a gwrych

Tymor y Gwanwyn

- Awdurdod- Archwiliad Iechyd, Diogewch a Lles

Tymor yr haf/Gwyliau'r Haf

- trwsio drws mynedfa CS
- gweithio ar ddrysau cyntedd a Neuadd/cegin
- Gwalch, i edrych ar y gwaith clirio mwsogl a chwyn (9:30)
- 4C- trwsio'r larwm lladron

Yn ychwnaegol, cwblhawyd profion arferol blynyddol megis:

- Owen+Palmer -profion trydanol PAT (blynyddol- tymor y gwanwyn)
- Awdurdod- Profi dwr a legionella (misol)
- AER- Profi gwresogyddion (blynyddol)
- Zurich- archwilio'r parc (blynyddol- tymor yr hydref)
- Gwalch- cynnal tir (cytundeb am y flwyddyn)
- Cwmni Tân Llŷn- Profi offer a systemau tân (blynyddol- tymor yr hydref)

- Sportfix- archeilio offer chwaraeon (blynyddol)
- 4C- profion larwm lladron (blynyddol- tymor yr haf)
- Adran Eiddo- Archwiliad Tan (blynyddol- tymor yr haf)
- MHO, Swyddogion Diogelwch a'r Panel Adeiladu - Arolwg cyflwr adeiladau (bob hanner tymor)

Toiledau'r ysgol

Mae toiledau pwrpasol, cymhareb tua 1:10, gan gynnwys toiledau 'bach' i blant y Cyfnod Sylfaen a thoiled addas i'r anabl. Mae toiledau bechgyn a merched ar wahân i blant CA2. Mae toiledau'r staff ar gael i defnydd plant fel bo'r angen. Caiff y toiledau eu glanhau yn ddyddiol.

CWRICWLWM

Fel pob ysgol arall mae'r ysgol yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru (ac rydym yn ymgyfarwyddo gyda Cwricwlwm i Gymru), y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol ac agweddau o'r Fframwaith Sgiliau Cenedlaethol. Mae crynodeb o gwricwlwm yr ysgol yn ein llawlyfr ysgol - mae copïau ar gael o'r ysgol neu oddi ar ein gwefan. Rydym hefyd yn dilyn cwricwlwm Webster-Stratton i gyflwyno strategaethau ymddygiad a hunan-ddisgyblaeth. Mae hyn yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Gwynedd.

POLISIAU A STRATEGAETHAU

Adolygydd a mabwysiadwyd nifer o bolisiau'r ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae copïau o'r polisiau ar gael yn yr ysgol a rhai ar wefan yr ysgol.

POLISI ADY&Ch

Amcan yr ysgol yw adnabod Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysedd yn fuan, er mwyn gallu cynnig y ddarpariaeth a chynhaliaeth orau, mwyaf cynhwysfawr ar eu gyfer pob disgybl gan helpu pawb i gyrraedd eu llawn botensial. Mae hyn yn flaenoriaeth gan y Llywodraethwyr. I'r perwyl hwn mae Targedau a Chynlluniau Datblygu Unigol manwl yn cael eu paratoi ar gyfer y plant a byddwn yn adolygu'r rhain gyda'r plant a'r rhieni.

- Cydlynedd ADY Ysgol Llanbedrog -Mrs Manon Haf Owen
- Llywodraethwr dynodedig ADY- Mrs Miriam Grant

Disgyblion ag anableddau

Yn unol â pholisi'r Awdurdod a gweledigaeth yr ysgol, mae mynediad llawn i ddisgyblion ag anabledd. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fyddai disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

CATEGORI IAITH

Mae'r ysgol yn ysgol ddwyieithog.

Y Gymraeg yw prif iaith yr ysgol ac rydym yn dilyn Polisi Iaith Gwynedd. Bydd plant nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cyrraedd yr ysgol yn cael eu 'trochi' yn yr iaith a buan iawn y dânt i siarad yn rhugl.

Cymraeg yw prif iaith gyfathrebol yr ysgol. Disgwylir, yn unol â nîd Siarter Iaith Ysgolion Cymraeg Gwynedd, i bob plentyn siarad Cymraeg ar y coridorau ac allan ar yr iard, ym mhob rhan o fywyd yr ysgol. Enillodd yr ysgol wobwr Aur y Siarter Iaith.

Yn unol â Pholisi Iaith Gwynedd addysgir pob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd Saesneg yn cael ei chyflwyno yn anffurfiol yn y Cyfnod Sylfaen ac yn ffurfiol ym Mlwyddyn 3. Ein nîd yw i bob plentyn fod yn rhugl ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Os bydd plentyn di-Gymraeg yn godi i'r ysgol yn ystod y Blynyddoedd Cynnar, bydd yn cael ei 'drochi' yn yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn naturiol. Os bydd hwyrdyfiaid neu blant Blwyddyn 2 ac uwch fyddai'n elwa o loywi iaith neu godi hyder byddant yn mynd i'r Ganolfan Iaith leol yn Llanyby am dymor. Mynychodd dau ddisgybl y Ganolfan Iaith yn 2019-20.

CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL

Cyd-weithiodd yr ysgol gydag ysgolion y dalgylch a thu hwnt mewn gweithgareddau cwricwlaidd ac allgwrwicwlaidd megis gweithgareddau chwaraeon a chlybiau dalgylch. Ond yn 2020-21, doedd hyn ddim yn bosibl. Credwn ei bod yn bwysig fod y plant yn cael amrywiol brofiadau ar ac oddi ar dir yr ysgol ac yn creu cyswllt gydag arbenigwyr mewn gwahanol feysydd er mwyn cyfoethogi eu haddysg. Ceir rhestr lawn o'r ymweliadau a'r ymwelwyr yn Adroddiadau'r Pennaeth a chofnodion llawn y Llywodraethwyr, sydd ar gael o'r ysgol.

Cawsom rai gweithdai ar-lein megid gweithdy llenyddiaeth Bl 5a 6 gyda'r awdur Casia William, sesiynau ffitrwydd wythnosol i blant ar draws yr ysgol gyda Wesyn Dafydd o'r Urdd, a gweithdy rhyngweithiol Nadolig gydag Anni, Tudur a Megan o'r enw Yr Heriau Hud. Roedd hyd yn oed ymweliadau blasu Blwyddyn 6 ag Ysgol Botwnnog yn rhithiol!

Daeth PC Owen i'r Ysgol i gynnal ei weithdy, ac hefyd Nia Morgan o'r Gwasanaeth Cerdd i roi bloc o dri gweithdy cerddorol wythnosol i bob dosbarth.

Pan oedd yn bosibl drwy gydol y flwyddyn gefnogom elusennau a busnesau lleol, e.e. Plant Mewn Angen, Marie Curie, Achub y Plant, MacMillan, T4U, Diwrnod Trwynau Coch, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Diwrnod Cerddoriaeth Cymru, Diwrnod Cenedlaethol y Llyfr.

Ni ddaeth myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor a Choleg Menai ar brofiad gwaith. Roedd trefniadau i ddisgyblion Ysgol Botwnnog ac Ysgol Glan y Môr ddod yn ystod tymor yr haf, ond methwyd a chynnig hyn oherwydd y Cyfnod Clo.

NODAU A CHYFLAWNIADAU CHWARAEON

Profodd y disgyblion o nifer o weithgareddau chwaraeon a gwnaethpwyd defnydd o'r iard, y cae, y Neuadd, ond ni aethpwyd i Ganolfan Hamdden Dwyfor na Chlwb Chwaraeon Pwllheli ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau a chwaraeon arferol oherwydd y pandemig. Ni chynhaliwyd gweithgareddau dalgylchol na thu hwnt.

Mrs Catrin Hall (Miss Sera Jones yn ystod ei habsenoldeb mamolaeth) oedd ein cyd-gysylltydd Addysg Gorfforol yr ysgol ac mae darpariaeth eang yn cael ei gynnig i'r plant o fewn yr ysgol o'r dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6.

Methodd plant blynyddoedd 3 a 4 a plant blynyddoedd 5 a 6 ar gyrsiau antur preswyl yng Nglan Llyn a Llangrannog yn Mai ac ni chynhaliwyd Clwb Campau'r Ddraig ôl-ysgol yn nhymor yr haf. Cynhaliwyd Clwb Dal i Fynd ar iard yr ysgol. Ni chynhaliwyd cystadlaethau Rygbi, Hoci, Criced, Pêl rwyd ac Athletau sirol a dalgylchol na Chlwb Gymnasteg yn Ysgol Botwnnog.

Mae'r ysgol yn hybu'r llu o glybiau chwaraeon lleol a daw unigolion o'r clybiau i'r ysgol i gynng sesiynau blasu pan fo hynny'n addas a diogel. Ond nid oedd hyn yn bosibl yn 2020-21. Yr unig ymwelwyr ddaeth oedd swyddogion Byw yn Iach, Cyngor Gwynedd.

BWYTA'N IACH

Dilyna'r ysgol ganllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglŷn â Byw'n Iach. Annogwyd plant i brynu ffrwyth o'n siop ffrwythau neu ddod â ffrwyth hefo nhw o gartref i'w fwyta ganol y bore, ac i yfed dŵr a'r ffynnon ddŵr unrhyw adeg o'r dydd. Ni chaniatwyd bwyd a diodydd sydd ddim yn cydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth.

I GLOI

Hoffai'r Corff Llywodraethol a'r staff ddiolch yn fawr iawn am gymorth parod y rhieni gyda phob trefniant yn ystod y flwyddyn. Cyfranna'r Cyfeillion yn helaeth at fywyd yr ysgol drwy drefnu digwyddiadau i godi arian. Mae pob disgybl yn yr ysgol yn elwa o'u gwaith. Gwerthfawrogwn fawr y berthynas iach sydd rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gymuned.

GOFYN AM GYFARFOD (Atodiad 3)

DYDDIADAU TYMOR YSGOL A GWYLIAU 2021-22

DYDDIADAU TYMOR:

Hydref 2020 1 Medi 2021 - 20 Rhagfyr 2021
Gwanwyn 2020 6 Ionawr 2022 - 8 Ebrill 2022
Haf 2020 25 Ebrill 2022 - 20 Gorffennaf 2022

GWYLIAU:

25 - 29 Hydref 2021 (Hanner-Tymor)
23 Rhagfyr 2021 - 6 Ionawr 2022 (Gwyliau'r Nadolig)
21 - 25 Chwefror 2022 (Hanner-Tymor)
11 - 22 Ebrill 2022 (Gwyliau'r Pasg)
2 Mai 2022 (Calan Mai)
29 Mai - 3 Mehefin 2022 (Hanner-Tymor)
21 Gorffennaf - 31 Awst 2022 (Gwyliau'r Haf)

Bydd dyddiau o hyfforddiant staff yn ychwanegol i'r uchod: 1+2/9/21, 18/2/22, 28/2/22, 3/5/22, 18/7/22, 19/7/22

Atodiad 1

Cronfa Ysgol Llanbedrog Statement of Fund Account

Balans agoriadol £7,386.16 (1/9/20)

Balans terfynol £5,449.80 (1/9/21)

Derbyniadau-£1,630.48

Taliadau-£3,566.84

Mae fersiwn manylach yn yr ysgol

Atodiad 2

Cyfeillion Ysgol Llanbedrog Statement of Fund Account

Balans agoriadol £1,886.01 (6/8/20)

Balans terfynol £2,138.81 (6/8/21)

Digwyddiadau

Calan Gaeaf (gwisg ffansi) £149.00

Rhodod penblwydd 100 oed Anti Ema £300.00

Asda- Foundation's Green Token £300.00

Taliadau

PTA Insurance £69.00

Ty Bach Twt (wooden house FP) £427.20